Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Abergynolwyn, Nos Lun 11eg Taachwedd 2019

Presennol: Gadeirydd Steve Lewis, Is Gadeirydd Robert Jones, H.E. Thompson, Elwyn Evans, Miriam Webb, Eleri Puw a Gwynedd Roberts, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Cyng, Dylan Jarman (dim adref mewn pryd)
Datgan Diddordeb: Dim
Derbyn Cofnodion Hydrefi a'u llofnodi gan y Cadeirydd.
1. Cae Chwarae: Nodwyd nad oedd gwair y cae angen sylw.
2. Mynwentydd: Pasiwyd i dalu am drwsio dau ddarn o wal fynwent y Llan
3. Llwybrau: Llwybyr rhif 6 – Amnewid camfeeydd diffygol gyda gatiau a gosod polyn cyferbwyntio.
4. Adroddiad Y Cadeirydd: Erbyn hyn mae'r arwyddion yn cael eu gosod yn y lle cywir bob yn un. Trafodwyd gostwng kerbs oddeutu yr hen siop Natal, tir preifat. Nis oedd Cyngor Gwynedd yn medru helpu. Pasiwyd i gario ymlsen gyda'r fenter..Diolch Cyng Lewis.
5. Cyng Gwynedd: Nododd y bydd rhan o'r ffordd o Minffordd i Corris yn cau dros nos am gyfnod byr, er mwyn ailwynebu. . Diolch Cyng. Beth Lawton.
6. Ciosg: Trafodwyd llythyr Cyngor Gwynedd ynglyn a bygythiad cau y tri. Pasiwyd yn un frydol ein bod isio cadw un Minffordd a Caerberllan. Cynigiodd Cyng Puw alw yn Gwesty Tynycornel, yr ateb oedd eu bod isio eu gadw a byddent yn ein cefnogi. LLythyr i Gwynedd i gadarnhau hyn.
7.Un Llais Cymru: Adroddodd Cyng. Elwyn Evans a Emrys Thompson eu bod wedi cael cyfarfod da abydd adroddiad yn dod ar ebost.
8. Cyngor Gwynedd: Rhaglen waith Tachwedd – Cyffordd Minffordd Hotel i Staer Dywyll yn cae lei ailwynebu.
9. Trafodwyd Cyfarfod Rhagfyr a phasiwyd yw dileu oni bai i rhywbeth godi ei ben.
10:.Taliadau:

Jones & Jones	llwybrau	696.00	siec 985
Cyngor Gwynedd	toiledau	2000.00	986
Un Llais	cwrs	80.00	987
Cyngor Gwynedd	Mewnol	180.00	988
G Williams	Wal y Llan	850.00	989
M Webb	Trafeilio Cyng	11.25	990
J A Owen	Agor bedd	500.00	991
Swyddfa Archwilio	Cymru /Allanol	351.60	992
Kevin Jones	rhodd Coeden Dolig	30.00	993

Cartref Mari Jones:
Dim

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 13eg Ionawr 2020 am 7 o'r gloch